

**CYFARFOD AR Y CYD PWYLLGORAU CRAFFU'R CABINET/GOFAL  
CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Iau, 30 Gorffennaf 2020**

**Cadeirydd:** **Cynghorydd L.M.Pucell**

**Is-gadeirydd:** **Cynghorydd M.Harvey**

**Cynghorwyr:** C.Galsworthy, S.Rahaman, A.P.H.Davies,  
C.Edwards, W.F.Griffiths, H.C.Clarke, J.Miller,  
S.H.Reynolds, D.Whitelock, J.D.Morgan,  
A.Llewelyn, S.E.Freeguard, S.A.Knoyle,  
A.N.Woolcock, S.Miller a/ac S.K.Hunt

**Swyddogion sy'n  
Bresennol:** S.Phillips, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones,  
C.Griffiths, D.Griffiths, A.Thomas, S.Blewett,  
A.James, C.Frey-Davies, T.Davies, C.Plowman,  
S.Curran a/ac C.Davies

**Gwahoddedigion y  
Cabinet:** Cynghorwyr A.R.Lockyer, C.Clement-Williams,  
P.A.Rees, D.Jones, A.Wingrave, L.Jones,  
R.G.Jones a/ac E.V.Latham

**Arsylwyr:** H.Neary

---

1. **PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd L Purcell yn Gadeirydd a phenodi'r Cynghorydd M Harvey yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn ar y cyd.

2. **TROSOLWG O'R YMATEB RHANBARTHOL I COVID, GAN  
GANOLBWYNTIO AR GARTREFI GOFAL**

Derbyniodd y Cydbwyllgor wybodaeth am y Trosolwg o'r Ymateb Rhanbarthol i COVID-19 a oedd yn canolbwyntio ar Gartrefi Gofal, a nodwyd yn yr adroddiad a ddisbarthwyd ac a goladwyd gan Jack

Straw, Cadeirydd Annibynnol y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eithriadol.

Rhodddwyd cyflwyniad gan Andrew Jarrett, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, a oedd yn cynnwys cydestun gwahanol feysydd cyfrifoldeb rhannau elfennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac esboniad ohonynt. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y feirws wedi cael effaith ddofn ar y cartrefi gofal, y preswylwyr a'r staff ledled y DU; roedd 46 o drigolion cartrefi gofal Castell-nedd Port Talbot wedi marw, gan gynnwys un aelod o staff.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, gan fod yr don gyntaf wedi mynd heibio bellach, fod y maes gwasanaeth ar draws Rhanbarth Bae Abertawe am roi sicrwydd eu bod wedi gwneud yr hyn yr oedd angen ei wneud a'r hyn yr oedd yn ofynnol iddynt ei wneud o ran diogelu cartrefi gofal ac y byddent yn gallu ystyried y gwersi a ddysgwyd a fyddai'n helpu pe bai ail ymchwydd.

Yn gynnar iawn yn ystod y pandemig, nodwyd bod isadeiledd ymateb brys wedi'i sefydlu a fyddai'n adrodd wrth grŵp rheoli aur, y comisiynwyd Jack Straw i'w gadeirio; roedd yr isadeiledd ymateb brys hefyd yn cynnwys dau gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Gweithredol y Bwrdd Iechyd. Esboniwyd bod llawer o grwpiau a oedd yn adrodd wrth y grŵp rheoli aur, gan gynnwys grŵp arian, a fu'n edrych ar fanylion gweithredol yr ymateb ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Ychwanegwyd bod y grŵp rheoli aur yn adrodd wrth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eithriadol, a sefydlwyd o ganlyniad i COVID-19.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys tri phartner statudol, y Bwrdd Iechyd, Cyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, a gomisiynwyd i ddarparu'r gwasanaeth statudol yn unigol. Nodwyd bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eithriadol wedi'i sefydlu ar ddechrau'r pandemig gyda'r tri phartner statudol, a oedd yn golygu nad oedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyffredinol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector, gofalwyr, cleifion, dinasyddion a landlordiaid cymdeithasol, wedi cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau gan ei fod wedi'i hatal dros dro fel y gallai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eithriadol symud ymlaen gyda'r tri phartner statudol yn gwneud y penderfyniadau.

Eglurodd swyddogion fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i sefydlu i edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Rhanbarth Bae Abertawe; y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eithriadol

gomisiynodd yr adroddiad a ddosbarthwyd, a Phartneriaeth Gorllewin Morgannwg yw'r enw cyffredinol ar gyfer y rhanbarth, yn ychwanegol at yr ardal iechyd a gofal cymdeithasol.

Ychwanegwyd mai'r adroddiad oedd y cyntaf o'i fath yng Nghymru i edrych yn ôl yn feirniadol fel rhanbarth i'r ymateb i COVID-19 mewn cartrefi gofal, fodd bynnag roedd yn debygol y byddai llawer mwy i ddod gan fod ffocws clir ar y mater hwn ledled Llywodraeth Cymru, y DU ac Ewrop.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Partneriaeth Gorllewin Morgannwg wedi cynnal cronfa ddata gynhwysfawr o ryngweithio â'r gymuned cartrefi gofal, ar draws pob agwedd gan gynnwys profi a chymorth bugeiliol a'i bod yn cwmpasu llawer o'r manylion a oedd yn cefnogi'r adroddiad. Ychwanegwyd y byddai'r lefel hon o wybodaeth yn bwysig pan gaiff adolygiadau eu cynnal yn y dyfodol, er bod yr Athro John Bolton, ar ran Llywodraeth Cymru, eisoes yn gwneud gwaith adolygu yr oedd cyfarwyddwyr statudol y bartneriaeth wedi cyfrannu ato.

Dywedwyd bod prif ffocws yr adolygiad ar sicrwydd, ac a oedd y bartneriaeth wedi cydymffurfio â'r canllawiau presennol drwy gydol y broses; a dysgu, yr hyn a ddysgwyd ac a fyddai paratodau gwell yn cael eu rhoi ar waith rhag ofn y bydd ail don a/neu ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

O ran statws yr adroddiad, tynnwyd sylw at y ffaith ei fod wedi'i gomisiynu ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r tri chorff statudol unigol er mwyn iddynt hwy nodi pa waith pellach a/neu waith craffu yr oedd angen ei wneud a pha dystiolaeth neu drywyddau ymholi pellach y dylid eu dilyn. Soniwyd bod yr adroddiad yn dangos gwaith partneriaeth cryf iawn rhwng Cyngor Abertawe, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'r Bwrdd Iechyd; roedd y tri pharti wedi cytuno ar yr holl faterion allweddol a bydd hyn yn bwysig pan gynhelir yr adolygiadau.

Nodwyd bod yr adroddiad yn dangos y gellid cael sicrwydd cryf o ran cydymffurfio â'r canllawiau presennol, er bod adegau pan oedd canllawiau'n newid yn gyflym a chafwyd oediadau byr rhyngddynt; fodd bynnag, dywedwyd mai logisteg oedd yn gyfrifol am hyn ac nid methiant i gydymffurfio â'r canllawiau. Dywedwyd mai ffactor arall y gellir ei arddangos yn glir oedd y dystiolaeth amlwg bod arweinyddiaeth wedi ceisio dylanwadu ar bolisi a chanllawiau cenedlaethol, yng ngolau'r sefyllfa gyfredol mewn cymunedau, a herio canllawiau lle roedd hynny'n briodol. Hysbyswyd yr Aelodau fod tystiolaeth a oedd yn dangos weithiau bod gweithgarwch lleol yn y

rhanbarth wedi arwain at ddiweddarau'r canllawiau a rhoi newidiadau ar waith o ran y y ffordd y rheolwyd materion.

Trafodwyd y meysydd heriol, a'r her fwyaf ledled y DU, Cymru a'r rhanbarth oedd yr haint yn cael ei throsglwyddo rhwng sectorau, er enghraifft, gwacáu ysbytai i baratoi ar gyfer cleifion COVID-19.

Soniwyd bod yr haint yn dod i'r amlwg pan oedd cleifion yn cael eu trosglwyddo i leoliadau cartrefi gofal, ac roedd yn fater y byddai angen mynd i'r afael ag ef yn genedlaethol.

I grynhoi, tynnwyd sylw at y ffaith bod creu adnoddau a'r gallu i symud adeileddau o gwmpas yn dibynnu ar yr hyn yr oedd ei angen ar y pryd, a bod popeth ar draws y system yn llawer gwell yn awr nag yr oedd ym mis Mawrth 2020, gan olygu bod y maes gwasanaeth wedi'i baratoi'n well pe bai ton arall o'r feirws. O ran rheoli heintiau ac atal ymlediad heintiau, nodwyd ei fod hefyd mewn sefyllfa well o lawer gan fod arferion a gweithdrefnau wedi esblygu a datblygu dros y misoedd diwethaf.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw wybodaeth am faint o bobl a heintwyd ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty gan ei bod yn hysbys bod y rhai nad oedd ganddynt y feirws pan aethon nhw i mewn i'r ysbyty, wedi cael y feirws ar ôl mynd yno. Gofynnwyd hefyd faint o gleifion oedd â'r feirws ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Dywedodd swyddogion nad oedd unrhyw ffigurau ar gael oherwydd nad oedd profion yn cael eu cynnal ar ddechrau'r pandemig, felly nid oeddent yn ymwybodol o faint o bobl oedd wedi cael y feirws; er bod profion wedi'u cynnal ers hynny, ni fyddai'r ffigurau'n gywir nac yn ddibynadwy oherwydd diffyg profi ar y dechrau.

Yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, roedd yn dweud, er gwaethaf pwysau cenedlaethol i beidio â bod mor dryloyw, fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi lansio meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer gofal cymdeithasol, a hynny'n yn gyhoeddus. Soniodd yr Aelodau y gellid ystyried bod y meini prawf diwygiedig hyn yn rhai risg uchel, felly roeddent am wybod pa waith monitro a wnaed wedi hyn mewn perthynas â'r meini prawf diwygiedig, gan gofio bod gofal cymdeithasol yn ofyniad statudol. Sicrhaodd swyddogion y Cydbwyllgor y cydymffurfiwyd â statud a chanllawiau bob amser; soniwyd bod y gyfraith wedi newid ar ddechrau'r pandemig gan newid y gallu o fewn y gwasanaethau i oedolion i edrych ar achosion yn wahanol. Tynnwyd sylw at y ffaith mai dogfen oedd y meini prawf cymhwysedd a oedd yn nodi sut y byddai angen i staff ymateb pe bai ton arall, a oedd yn ffordd o hysbysu'r Aelodau a'r cyhoedd o'r

cynlluniau pe bai hynny'n digwydd. Esboniwyd bod holl achosion y gwasanaethau oedolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u graddio drwy system Coch Ambr Gwyrdd (CAG) a oedd yn ffurf ar baratoi ac ymateb cymesur; dynodai gwyrdd yr achosion lle y trafodwyd materion â'r teulu a ffrindiau ac yna byddent yn dechrau darparu gofal a chymorth, roedd ambr yn dynodi mwy o risg pe bai gwasanaethau'n cael eu tynnu'n ôl a choch yn dynodi nad oedd unrhyw ffordd bosib o dynnu gwasanaethau'n ôl. Soniwyd na fu erioed adeg pan y bu angen diffodd yr holl achosion a raddiwyd yn wyrdd, ond roedd swyddogion am egluro, yn y meini prawf cymhwysedd, y byddent yn barod i ddiffodd yr achosion a raddiwyd yn wyrdd pe bai'r galw a'r don yr oeddent yn eu disgwyl yn dod. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er bod yr unigolion ar statws CAG, fod y staff mewn cysylltiad â hwy bob dydd/wythnos a'u bod yn dal i gadw mewn cysylltiad er nad oedd yr ymweliadau'n cael eu cynnal ar y pryd. Yn dilyn cwestiwn ynglŷn â pha mor hir y byddai'r meini prawf diwygiedig yn bodoli, cadarnhaodd swyddogion fod y gwasanaeth yn dal mewn cyfnod addasol ac yn paratoi ar gyfer gwahanol bosibiliadau, fodd bynnag pe bai angen deddfu unrhyw ran o'r meini prawf cymhwysedd, byddai swyddogion yn barod i hysbysu'r Pwyllgor o'r hyn a wnaed, pryd y byddai'n cael ei wneud ac am ba hyd y byddai ar waith.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu profiadau'r preswylwyr, teuluoedd a staff y cartrefi gofal a gofynnwyd a wnaed unrhyw ymdrechion i gysylltu â'r rhai yr effeithiwyd arnynt neu eu heiriolwyr, gan y dywedwyd bod angen rhoi'r cyfle iddynt sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Esboniodd swyddogion fod grŵp gofal a gomisiynwyd yn allanol wedi'i sefydlu fel is-grŵp o'r grŵp rheoli arian, a oedd yn cynnwys swyddogion comisiynu ar draws y rhanbarth a oedd yn cyfathrebu'n gyson â'r cartrefi gofal preswyl ac yn cael eu mewnbwn, sydd ar y cyfan yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Eglurwyd bod yr adroddiad a ddisbarthwyd yn gipolwg tra oeddem yng nghanol y pandemig, i nodi'r gwersi a ddysgwyd gan gynnwys y penderfyniadau a wnaed a'r ffordd y dadansoddwyd y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, mynegodd swyddogion yr angen i lunio adroddiad a'i gyflwyno i'r Aelodau, a fyddai'n ymdrin â barn cartrefi gofal a'u preswylwyr. Cytunodd Angela Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, i lunio'r adroddiad.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gofal bugeiliol a pha wersi a ddysgwyd o ynysu preswylwyr a chleifion o'u teuluoedd; gofynnwyd a fyddai unrhyw newidiadau i ymweliadau a'r wybodaeth a roddir i berthnasau,

gan gynnwys y ffordd y byddai angladdau'n cael eu rheoli yn y dyfodol pe bai ail don yn digwydd. Dywedwyd bod y staff, drwy gydol y pandemig, yn cydnabod eu bod yn cydbwysu risgiau, y risg o haint yn erbyn y risg o ynysu pobl o'u teuluoedd a allai fod wedi bod ar ddiwedd eu hoes. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod wedi ceisio rheoli'r risgiau mor effeithiol â phosib, wrth ddilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Crybwyllwyd bod cartrefi gofal wedi bod yn flaengar iawn wrth geisio trefnu i breswylwyr gael cyswllt â'u teuluoedd, er enghraifft drwy sianeli digidol gan gynnwys Microsoft Teams a WhatsApp a lle y bu'n bosib, ganiatáu i deuluoedd gael cyswllt drwy sefyll y tu allan. Nododd yr Aelodau nad oedd yr amgylchiadau'n ddelfrydol, ond oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y feirws yn yr awyr ac effeithiolrwydd masgiau wyneb, bu'n rhaid cymryd y mesur hwn i atal y risg o drosglwyddo'r feirws mewn cartrefi gofal. Dywedwyd mai'r gwersi a ddysgwyd oedd bod ffyrdd eraill o ddarparu cyswllt rhwng teuluoedd i helpu i atal ymlediad y feirws, ond roedd y penderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd yn anodd iawn a'r unig ffordd o wneud y penderfyniadau hyn oedd trwy gydbwysu'r risgiau â'r canllawiau a ddarparwyd gan wyddonwyr. Ychwanegwyd bod awdurdodau y rhan fwyaf o'r amser wrth weithredu'r cyfyngiadau llym, yn cael eu harwain a'u cyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru gyda gwasanaethau fel mynwentydd ac amlosgfeydd, a bod angen cydymffurfio â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, sy'n yn dal i fod yn gyfraith yng Nghymru, er mwyn helpu i atal ymlediad y feirws hefyd.

Cyfeiriwyd at y materion allweddol sy'n ymwneud â PPE, ac esboniwyd bod yr awdurdod, yn seiliedig ar y canllawiau a oedd yn cael eu rhoi ar y pryd, yn cydymffurfio â'r holl ofynion PPE; oherwydd y newidiadau parhaus a oedd yn cael eu gwneud gan y Llywodraeth, bu'n rhaid i'r awdurdod hefyd ailwerthuso penderfyniadau a wnaed. Nodwyd mai £10 miliwn oedd y gwariant blynyddol presennol yng Nghymru ar PPE, fodd bynnag yn ystod tri mis cyntaf y pandemig roedd Llywodraeth Cymru wedi gwario £200 miliwn yn ceisio darparu PPE effeithlon. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod pwynt yn ystod y pandemig lle'r oedd Cymru'n agos iawn o fynd yn brin iawn o PPE, ond fel rhanbarth cydweithiom gyda'n gilydd gan ddefnyddio prosesau rhanbarthol i brynu a chael PPE naill ai drwy'r sianeli arferol neu drwy ei chyrchu'n annibynnol. Soniwyd bod yr adnoddau ar gael yn ardal Castell-nedd Port Talbot i roi digon o PPE i gartrefi gofal ac ardaloedd eraill, a bod ffatri bellach yng Nghastell-nedd Port Talbot a oedd wedi newid ei phroses gweithgynhyrchu i gynhyrchu PPE yn unig. Hwn bellach yw'r cwmni PPE gweithgynhyrchu mwyaf yn y DU.

Yn dilyn hyn, daeth Cymru mor effeithlon gyda PPE fel y dechreuodd y wlad gyflenwi gwledydd eraill yn y DU gan gynnwys Gogledd Iwerddon a Lloegr.

O ran gwneud penderfyniadau, gofynnwyd a ellid fod wedi gwneud hynny'n wahanol er mwyn cael llai o effaith ar y gymuned. Dywedwyd mai diben y trosolwg oedd nodi'r hyn y gellid fod wedi'i wneud yn well, fodd bynnag, yn seiliedig ar y wybodaeth a'r cyngor a oedd yn cael eu cyfleu gan y Llywodraeth a'r gwerthusiadau a gwblhawyd gan swyddogion, gwnaed y penderfyniadau gorau posib ar y pryd; pan oedd y canllawiau, y cyngor cyfreithiol a'r wyddoniaeth yn newid, addasodd yr awdurdod ei brosesau a'i benderfyniadau.

Gofynnwyd i swyddogion a fyddent yn gallu darparu'r ffigurau i ddangos faint o bobl oedd wedi'u heintio â'r feirws yn y cartrefi gofal fel y gallai Aelodau gael dealltwriaeth o faint o breswylwyr oedrannus sy'n goresgyn y feirws. Nodwyd y gallai swyddogion roi'r wybodaeth hon i'r Aelodau pe bai angen.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y bartneriaeth ar y cyd ag Iechyd y Cyhoedd a gofynnodd am eglurhad ynghylch sut byddai'r argymhellion yn cael eu monitro a sut byddent yn cael sicrwydd bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau. Amlygodd swyddogion y byddai Cyngor Abertawe a'r Bwrdd Iechyd Cyhoeddus yn mynd drwy'r un broses o graffu ar y adroddiad a ddosbarthwyd. Ychwanegwyd bod y gwaith partneriaeth mewn perthynas â hyn wedi bod yn effeithiol ac y byddai'n parhau, gyda'r ddau barti'n dwyn ei gilydd i gyfrif ac yn dod o hyd i atebion cyffredin; cynhaliwyd cyfarfodydd yn wythnosol, gan ganiatáu i'r berthynas bartneriaeth a ffurfiwyd gryfhau.

Hysbyswyd y Pwyllgor, er bod y profion wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yng nghylch gwaith y GIG, fod trefniadau bellach ar gyfer cynlluniau profi cenedlaethol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a chynlluniau profi lleol y byddai cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol yn ymwneud yn uniongyrchol â hwy; felly, byddai trefniadau partneriaeth lleol ar waith gyda mewnbwn uniongyrchol i ddatblygiad y cynllun.

Cafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â phrofion a ffyrdd o wella dibynadwyedd y canlyniadau a pha mor gyflym y mae unigolion yn cael eu canlyniadau'n ôl. Nodwyd bod dau ddull profi, profi lleol a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd a phhecynnau hunanbrofi cenedlaethol; dywedwyd bod y profion lleol yn gweithio'n effeithlon gyda chanlyniadau profion yn cael eu dychwelyd yn brydlon. Fodd bynnag, roedd y profion cenedlaethol yn aml yn broblem gydag unigolion yn

cael anhawster derbyn eu canlyniadau; nodwyd bod Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd wedi trosglwyddo hyn yn ôl i Lywodraeth Cymru. Soniodd swyddogion y byddai cael unigolion i gwblhau profion dwbl at ddiben dibynadwyedd yn debygol o roi baich ar y ddau ddull profi, yn enwedig gan fod y system profi leol eisoes dan rywfaint o bwysau. Cadarnhawyd bod Seminar Pob Aelod ar Brofi, Olrhain a Diogelu wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi.

Nodwyd drwy gydol yr adroddiad bod cyfeiriadau'n cael eu gwneud at yr egwyddor o 'beidio â throsglwyddo haint yn fwriadol'; Gofynnodd yr Aelodau a allai swyddogion ymhelaethu ar hyn a chadarnhau a oedd yr egwyddor yn unigryw i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eithriadol neu a oedd yn berthnasol i bob aelod. Esboniodd swyddogion fod hon yn egwyddor bwysig, y gellid o bosib fod wedi'i rhoi ar waith yn gynt; dechreuodd gyda pheidio â rhyddhau rhywun y gwyddid ei fod yn heintus i gartref gofal, ac yna symudodd i beidio â rhyddhau rhywun y gwyddid ei fod yn heintus i leoliadau cymunedol. Nodwyd bod y rhanbarth ar y blaen i ganllawiau Llywodraeth Cymru ac yn un o'r unig ranbarthau i roi'r egwyddor ar waith ar y pryd.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd fod rhai clinigwyr yn parhau i weithredu ar y sail y gellid trosglwyddo unigolyn i leoliad cartref gofal unwaith ei fod yn feddygol ffit i'w ryddhau, hyd yn oed os yw'n profi'n bositif o hyd am COVID-19; Gofynnodd yr Aelodau a allent gael sicrwydd y byddai'r broblem hon yn cael ei datrys pe bai ail don yn digwydd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhwystrau a gwrthbwysau ar waith bellach i sicrhau nad yw hyn yn digwydd, er enghraifft, sicrhau bod profion cyfoes yn cael eu cynnal; er y dywedwyd y byddai'n anodd ei rheoli gan ei bod yn system fawr, roedd swyddogion yn dawelach eu meddwl wrth symud ymlaen.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd unrhyw syniadau blaengar i'w cael mewn perthynas â lle y byddai cleifion sy'n profi'n bositif am COVID-19 yn cael eu rhoi pe bai ail don, oherwydd cydnabuwyd y gallai fod risgiau'n eu hwynebu wrth aros mewn ysbyty cyffredinol neu gartrefi gofal. Nodwyd bod nifer y cleifion sydd â'r feirws yn isel iawn ar hyn o bryd, a oedd wedi creu ei anawsterau ei hun, fodd bynnag roedd lleoli cleifion yn flaenoriaeth a phe bai ail don yn digwydd, byddai carfan o gleifion yn cael eu rhoi mewn wardiau COVID-19 penodol a byddai'r ysbytai maes yn cael eu defnyddio.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar ddiwedd glo'r yr adroddiad a ddosbarthwyd lle'r oedd yn dweud bod nifer o feysydd, yn benodol, allu cenedlaethol y GIG i greu lle, lle na ellid rhoi sicrwydd mewn



perthynas â throsglwyddo haint neu niwed. Nodwyd mai un o'r prif bwysau ar y GIG a'r system gofal cymdeithasol yn gynharach yn y pandemig oedd gwagio gwelyau ysbytai a bod y canllawiau a fodolai bryd hynny'n dibynnu ar y ffaith ei bod hi'n ddiogel rhyddhau cleifion i'r gymuned a phe baent wedi'u heintio â'r feirws, yna gallent hunanynysu. Nodwyd bod hwn yn bwysau rheoli enfawr ledled y DU, gan nad oedd system brofi reolaidd ar waith a bod pwysau ar wacáu ysbytai, a oedd yn golygu bod pobl a heintiwyd yn symud o amgylch y system, gan ddod i mewn i ysbytai a'u gadael.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Ar ran y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles, diolchodd y Cadeirydd i bawb sy'n gweithio yn y sector gofal, o lefel y swyddogion i'r gweithwyr rheng flaen, gan drosglwyddo gwerthfawrogiad pawb iddynt.

## **CADEIRYDD**